Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Y Gwir Anrh Sajid Javid AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Stryd Marsham
Llundain
SW1P 4DF

20 Mai 2019

**YNGHYLCH: AHGTAEM-Twyll: Amser dewis – ymateb yr heddlu i dwyll**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Rwyf yn ysgrifennu ynghylch yr adroddiad a nodir uchod, a groesawir gennyf i a'r Prif Gwnstabl Mark Collins.

Rwyf yn hyderus fod Dyfed-Powys fel Heddlu'n cydnabod yr heriau sylweddol y mae Twyll yn ei greu, ac y mae cyflwyno Uned Seiberdroseddu penodedig yn brawf o hynny. Rwyf wedi buddsoddi mewn sgiliau archwilio, dadansoddi a hyfforddiant ychwanegol i gyfoethogi ymhellach allu'r Heddlu i fynd i'r afael â Thwyll a Seiberdrosedd o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am hyn.

Dywed y Prif Gwnstabl Collins wrthyf fod Cofrestrydd Troseddu'r Heddlu'n rhoi adroddiad cywir ac effeithlon o bob canlyniad twyll yn fisol i'r Uned Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol a bod rhestrau dioddefwyr misol yr uned honno ar gael i'n gwasanaethau dioddefwyr a thystion ni ac i'n Timau Plismona Bro. Rwyf wedi fy sicrhau fod gan Heddlu Dyfed-Powys brosesau mewn lle i adrodd am dwyll o fewn ein hardal i 'Action Fraud' ac i ymdrin â lledaeniadau twyll o'r Uned Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol. Rwyf wedi fy sicrhau ymhellach fod polisi'r Heddlu o ran ymateb i gyhuddiadau o dwyll a'u harchwilio yn symud ymlaen ac y disgwylir iddo gael ei ysgrifennu erbyn dim hwyrach na diwedd Gorffennaf 2019.

Y mae'n galonogol fod dioddefwyr twyll agored i niwed yn derbyn gwasanaeth da. Mabwysiadwyd y fenter safonol genedlaethol 'Operation Signature' gan Ddyfed-Powys a chyllidais rôl Swyddog Diogelu Rhag Twyll o fewn ein Tîm Troseddu Ariannol. Rwyf wedi fy sicrhau fod gwerthuso boddhad dioddefwyr yn cael ei symud ymlaen ac rwyf yn bwriadu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch cyllido'r rôl hon yn y dyfodol cyn i'r trefniant cyfredol ddod i ben ym mis Hydref. Ers cychwyn y rôl hon mae'r swyddog wedi ymgysylltu'n uniongyrchol gyda 45 o ddioddefwyr risg uchel, wedi darparu cyflwyniadau mewn perthynas ag 'Operation Signature' o fewn y gymuned ar 14 achlysur ac wedi treulio 4 diwrnod ar y Seiberfws Rhanbarthol pan ymwelodd ag ardal

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

ein Heddlu. Roedd y bws wedi ei gyllido gan Lywodraeth Cymru ac ymwelodd â phob un o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Amcan hyn oedd sicrhau fod gan bobl a busnesau'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i adnabod arwyddion seiberdroseddu.

Y mae'n ddiamheuaeth y gellir gwneud mwy i gefnogi'r nifer gynyddol o ddioddefwyr twyll, a chyfrannodd hyn at fy mhenderfyniad i gynnal fy nghynhadledd Dydd Gŵyl Dewi flynyddol ar Dwyll a Seiberdrosedd. Cefnogais hefyd Heddlu Dyfed-Powys wrth gynnal dau ddigwyddiad 'Diogelu eich Busnes' gyda'r amcan o gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau busnes lleol ynghylch y modd y gall troseddwyr trefnedig dargedu busnesau a beth y gallant ei wneud i atal cael eu targedu a sut y dylent ymateb os bydd hynny'n digwydd iddynt. Roedd arbenigwyr wrth law yn y sioeau teithiol hyn i arwain perchnogion drwy'r materion cymhleth y gallent eu hwynebu.

Yn ddiweddar comisiynais asesiad o anghenion dioddefwyr a phobl agored i niwed, a daeth twyll i'r amlwg fel maes penodol a oedd angen sylw. Mae gwaith yn parhau er mwyn ystyried y modd y gall fy strategaeth gomisiynu yn y dyfodol gefnogi hyn.

Rwyf yn hyderus y bydd sylw parhaus Heddlu Dyfed-Powys i'r maes hwn yn ysgogi gwelliannau. Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio gyda'r Heddlu i sicrhau ein bod yn diogelu ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol ac yn diogelu'r rhai agored i niwed.

Ceir copi o'r ymateb hwn ar fy ngwefan.

Yn gywir



**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Cc: AEM Wendy Williams

Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.